**ATODIAD 2b**

**SETLIAD 2019/20 (TROSGLWYDDIAD MEWN / CYFRIFOLDEB NEWYDD)**

| Manylion y Setliad |
|---|
| **ADRAN ADDYSG (G.T.)** |
| **Set 1 Prydau Ysgol am ddim – Effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) - £234,150 Parhaol**<br><br>Mae Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol (GLCC) yn fudd-dal newydd sy'n cefnogi pobl ar incwm isel neu yn ddi-waith. Bydd yn disodli 6 budd-dal sef, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm; Cymhorthdal Incwm; Credyd Treth Gwaith; Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.<br><br>Erbyn 12 Rhagfyr 2018 bydd Gwynedd yn mynd yn fyw efo'r GLCC ac o ganlyniad, bydd disgwyl cynnydd yn niferoedd plant fydd yn derbyn cinio am ddim.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £7miliwn i Awdurdodau Cymru ar gyfer cyfarch effaith y GLCC ar y gwasanaeth Prydau Ysgol gan y bydd y niferoedd fydd â hawl i ginio am ddim yn cynyddu. O ganlyniad, disgwylir gostyngiad yn yr incwm prydau ysgol, a chynnydd yng nghostau prydau ysgol am ddim.<br><br>Gwneir cais am £234,150, sef elfen Gwynedd yn y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad.<br><br>Sut – ni fydd gorwariant i gyllideb refeniw'r Adran gan fydd addasiad i gyllideb incwm prydau ysgol a'r gyllideb gwariant prydau ysgol am ddim.<br><br>Risgiau – petai'r cais yn cael ei wrthod byddai gorwariant yng nghyllideb refeniw'r Adran o 2019/20 ymlaen.<br><br>Sylwadau - Argymhellir cefnogi'r cais. |
| **ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (G.R.)** |
| **Set 2 Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £40,000 i £50,000 - £312,490 Parhaol**<br><br>Cais i ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru eu bod yn cynyddu'r trothwy cyfalaf a ddefnyddir i benderfynu os yw person yn hunan ariannu eu lleoliad preswyl/nyrsio o £40k i £50k, sydd yn dod i rym yn Ebrill 2019.<br><br>Gwneir cais am £312,490, sef yr elfen cyfrifoldeb newydd o'r setliad.<br><br>Sut – Bydd cynyddu'r terfyn cyfalaf yn golygu bod pobl yn cyrraedd y trothwy sy'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan y Cyngor yn gynharach.<br><br>Risgiau - heb y cyllid ychwanegol bydd y gyllideb bresennol yn annigonol a'r Adran yn debygol o orwario.<br><br>Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais. |